CANLLAWIAU – DIFFINIADAU O SGILIAU IAITH PAN FYDD Y GYMRAEG YN HANFODOL/DYMUNOL AR GYFER SWYDD

Swyddi nad ydynt yn swyddi Addysgu a Dysgu

Bydd statws y Gymraeg fel sgil hanfodol neu'n ddymunol a lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol yn cael ei nodi yn y **fanyleb disgrifiad swydd /person.**

ENGLISH VERSION BELOW

Sgìl	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol
Dealltwriaeth	Yn gallu deall trafodaethau proffesiynol a thermau technegol perthnasol.	Yn gallu deall y rhan fwyaf o sgyrsiau pob dydd, rhagweladwy gyda staff a dysgwyr	Yn gallu deall ceisiadau sylfaenol, cyffredin.
Siarad	Yn gallu cychwyn a chymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol gydag amrediad o aelodau staff, dysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan ddefnyddio termau technegol perthnasol yn ôl y galw.	Yn gallu cymryd rhan mewn sgyrsiau syml gyda staff a dysgwyr. Yn gallu ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a cheisiadau syml, wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.	Yn gallu cyfarch staff, dysgwyr ac ymwelwyr.
Llythrennedd	Yn gallu darllen testunau estynedig (h.y. llythyrau,	Yn gallu darllen testunau safonol a rhagweladwy, fel	Yn gallu darllen arwyddion sy'n gyffredin yn y sefydliad.

	adroddiadau, negeseuon ebost cymhleth). Yn gallu defnyddio meddalwedd Cymraeg (h.y. gwiriwr sillafu ac ati) i gynhyrchu amrediad o destunau e.e.: • Llythyrau safonol • Negeseuon ebost • Cofnodion cyfarfodydd	llythyrau a negeseuon ebost. Yn gallu ysgrifennu negeseuon ebost anffurfiol syml a nodiadau ar gyfer defnydd personol.	Yn gallu ysgrifennu cyfarwyddiadau syml iawn e.e. nodiadau ar sgwrs ffôn neu ar bwnc rhagweladwy.